# SL(5)562 – Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) 2020

## Cefndir a Diben

Mae adran 82 o Ddeddf y Coronafeirws 2020 yn sicrhau na chaniateir gorfodi ailfynediad neu fforffediad am beidio â thalu rhent mewn perthynas â'r holl fathau o denantiaid masnachol yn ystod y cyfnod perthnasol ("relevant period"). Mae adran 82(12) o'r Ddeddf yn diffinio'r "relevant period" fel cyfnod sy'n dechrau ar 26 Mawrth 2020, ac sy'n dod i ben ar 30 Mehefin 2020 neu ar unrhyw ddyddiad diweddarach a bennir mewn rheoliadau a wneir gan yr awdurdod cenedlaethol perthnasol.

Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cenedlaethol perthnasol o ran Cymru. Yn unol â hynny, mae'r Rheoliadau hyn yn estyn y cyfnod perthnasol hyd 30 Medi 2020. O ganlyniad i'r Rheoliadau hyn, mae'r moratoriwm a ddarperir gan adran 82 o'r Ddeddf wedi ei estyn hyd 30 Medi 2020.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd dau bwynt i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn y torrir y rheol 21 diwrnod (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a'r esboniad am dorri'r rheol a ddarparwyd gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, mewn **llythyr** at y Llywydd, dyddiedig 19 Mehefin 2020.

Yn benodol, nodwn y paragraffau canlynol yn y llythyr hwnnw:

> "Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn trafod y mater hwn â Llywodraeth y DU, mewn perthynas â Chod Ymarfer ar gyfer landlordiaid a thenantiaid sydd â'r nod o hybu gwell cydweithredu rhwng partïon sy'n ymdrin â'r heriau mae COVID-19 yn eu peri i fusnesau, wrth iddo effeithio ar drefniadau tenantiaeth fusnes. Er mwyn rhoi digon o amser i'r partïon perthnasol ystyried y Cod, mae'r Rheoliadau wedi cael eu gosod lai na 21 diwrnod cyn iddynt ddod i rym.
>
> Byddai peidio â dod â'r Rheoliadau i rym o 30 Mehefin yn arwain at fwlch annymunol yn y mesurau diogelu sydd â'r nod o hyrwyddo sefydlogrwydd a chadernid ar adeg sy'n hynod anodd i economi

Cymru. Credir bod torri'r confensiwn 21 diwrnod yn angenrheidiol yn yr achos hwn ac y gellir cyfiawnhau gwneud hynny."

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn, ond rydym yn croesawu eglurder y deunydd esboniadol (gan gynnwys y Nodyn Esboniadol, y Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol), sy'n ddefnyddiol iawn o ran cyflwyno cefndir y Rheoliadau hyn.

Mae darparu deunydd esboniadol mewn ffordd glir a defnyddiol yn helpu'r Pwyllgor i graffu'n effeithiol ac yn effeithlon.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**29 Mehefin 2020**